PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD

DYDD LLUN, 8 IONAWR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Goodway(Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Berman, Burke-Davies, Carter, Keith Jones, Goddard, Jones-Pritchard, Kelloway, McKerlich a/ac Wong |

15 : YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd McEvoy.

16 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

17 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2017 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

18 : RHEOLAU GWEITHDREFN CYFARFODYDD CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, wedi i'r Pwyllgor hwn ei ystyried yn ei gyfarfodydd ar 31 Awst a 25 Hydref 2017 ac wedi ymgynghori â'r Arweinwyr Grŵp a Chwipiau, i'r Cyngor Llawn i'w gymeradwyo a rhoi argymhellion ar newidiadau i'r rheolau gweithdrefn ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor.

Y newidiadau arfaethedig sy'n ymwneud â'r materion canlynol:

- Rheol i gyfyngu ar deyrngedau a chlodydd;
- Cyfyngiad ar ddau Ddeiseb Arferol fesul cyfarfod;
- Nodi bod Papurau Gwyrdd y Cabinet a drafodwyd yng nghyfarfod y Cyngor yn cael eu cyfrif yn rhan o broses ddyrannu Deisebau Arferol y grŵp arwain;
- Rheol na ddylai diwygiadau i Ddeisebau Arferol negyddu'r ddeiseb wreiddiol;
- Yr Aelod Cabinet i gael yr hawl i ymateb i ddeiseb ac (gyda chytundeb y cynigiwr a'r eiliwr) i gynnig bod y pleidlais yn cael ei ohirio i'r cyfarfod nesaf, er mwyn rhoi'r cyfle i'r Cabinet ystyried y mater yn gyntaf;
- Gofyniad bod Datganiadau'r Cabinet yn cael eu cylchredeg gydag agenda'r Cyngor;
- Peidio â chyfrif Aelodau Cabinet a Chynorthwywyr Aelodau Cabinet ym mhroses ddyrannu cymesurol Cwestiynau Llafar y grŵp arwain;
- Dileu'r gallu i ofyn ail gwestiwn ategol ar lafar;
- Darparu ar gyfer atebion cyfansawdd i gwestiynau llafar sy'n gysylltiedig yn agos â'r pwnc neu'n ymwneud â'r un pwnc, lle bo'n briodol;
- Galluogi pleidiau gwleidyddol i nodi eu dewis siaradwyr o flaen llaw ar gyfer dadleuon ar faterion penodol os hoffent (ond gan gadw disgresiwn yr Arglwydd Faer); a
- Cynnwys y cyfyngiadau amser cyfredol sydd ar eitemau agenda yn y Rheolau, gyda disgresiwn i'r Arglwydd Faer eu hymestyn.

Roedd consensws cyffredinol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar y newidiadau arfaethedig ac eithrio gwrthwynebiad gan y Grŵp Democrataidd Rhyddfrydol ar ddileu'r ail gwestiwn ategol ar gwestiynau Llafar, gan y gwelwyd bod hyn yn ddileu gallu ôl-feincwyr i ofyn cwestiynau digymell.

Cynigiwyd a chytunwyd hefyd nad yw Aelodau Cabinet ac Aelodau Cabinet Cynorthwyol yn cael eu cyfrif ym mhroses ddyrannu deisebau a bod nifer lleiaf y deisebau'r cael eu lleihau i un.

Cytunwyd hefyd fod cyfyngiad amser newydd ar gyfer cyflwyno deisebau yn cael ei gyflwyno fel y mae Deisebau'n cael eu derbyn ynghynt ac pe bai mwy na dwy ddeiseb yn cael eu derbyn ar gyfer un cyfarfod y Cyngor dylai Cadeirydd y Cyngor yn penderfynu ar ba ddeisebau gaiff eu cyflwyno yn y cyfarfod, mewn ymgynghoriad â Chwipiau Grŵp. Dylid blaenoriaethu deisebau gan ddal sylw ar ffactorau megis pa mor frys yw'r Deiseb; unrhyw bolisi neu arwyddocâd arall i'r Cyngor; a nifer y Deisebau sydd eisoes wedi'u cyflwyno gan y grŵp hwnnw.
Ceisiwyd eglurhad hefyd ar atebion cyfansawdd i Gwestiynau Llafar a chadarnhawyd y bydd pob person sy'n gofyn Cwestiwn ar Lafar yn cael cyfle i ofyn cwestiynau ategol os cafodd ateb cyfansawdd ei roi.

Yn olaf cytunwyd y byddai hawl gan yr Aelod Cabinet perthnasol i ymateb i ddeiseb sy'n ymwneud â'i gyfrifoldeb ac y gallai, gyda chytundeb y cynigiwr a'r eiliwr, i gynnig bod y bleidlais yn cael ei gohirio i'r cyfarfod nesaf, er mwyn rhoi'r cyfle i'r Cabinet ystyried y mater yn gyntaf. Nodwyd unrhyw ganlyniad sy'n dod o ystyriaethau'r Cabinet yn Natganiad yr Aelod Cabinet ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor.

Gan fod consensws yng nghyfarfod y Pwyllgor, cynigiwyd felly fod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 25 Ionawr 2018.

PENDERFYNWYD –

1. cytuno i'r newidiadau arfaethedig fel y nodir yn Atodiadau A a B yr adroddiad ac i gynnwys hefyd:

   - Newid y rheolau dyrannu ar gyfer Deisebau Arferol trwy ddileu Papura Gwyrdd y Cabinet o broses ddyrannu'r grŵp arwain; peidio â chyfrif Aelodau Cabinet a Chynorthwywyr Aelodau Cabinet yn y cyfrifiadau cymesuredd; a lleihau nifer lleiaf y Deisebau ar gyfer unrhyw grŵp gwleidyddol cydnabyddedig i un;

   - Cyflwyno 'Cyfnod Cyflwyno' (sy'n ddod â'r dyddiad cau ynghynt) ar gyfer Deisebau Arferol er mwyn rhoi amser i grwpiau plaid gytuno i'r dewis o Ddeisebau os oes mwy na'r nifer uchaf (Sef 2) ar gyfer cyfarfod Cyngor penodol;

2. argymell y newidiadau i'r Cyngor Llawn ar 25 Ionawr 2018 eu cymeradwyo gydag effaith o gyfarfod blynyddol y Cyngor 24 Mai 2018, yn amodol ar adolygiad ar ôl blwyddyn.

19 : RHEOLAU GALW I MEWN CRAFFU

Yng nghyfarfod Cydgysylltu Cadeiryddion Craffu ym mis Awst 2017, cynigiwyd bod Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn yn cael eu diwygion o ran pan fo mater wedi bod yn destun craffu cyn penderfyniad y dylid caniatáu galw i mewn *dim ond* os oes gwybodaeth ychwanegol neu newydd sylweddol wedi'i chael, nad yw'r Pwyllgor Craffu wedi'i hystyried yn flaenorol. Byddai hyn yn osgoi ailadrodd gwaith ac amser Aelodau a swyddogion yn ddiangen.

Roedd yr Aelodau yn fodlon gyda chynnig y Cadeiryddion Craffu gan argymell bod y diwygiad i Reol 23 Gweithdrefn Galw i Mewn y Gweithdrefnau Craffu yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo.

PENDERFYNWYD –

1. cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Gweithdrefn Craffu, fel y dangosir yn Atodiad B i'r adroddiad; a

2. chyflwyno adroddiad ar argymhellion y Pwyllgor Cyfansoddiad i'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo ar 25 Ionawr 2018.

20 : CYNLLUN GWAITH YMLAEN 2017-18

Y prif ffrwd waith ar gyfer y Pwyllgor yn 2017/18 yw datblygu gwelliannau i agweddau ar y Cyfansoddiad, yn enwedig mewn perthynas â gwneud cyfarfodydd y Cyngor yn fwy effeithiol, gan roi mwy o dryloywder o ran sut gwneir penderfyniadau a'r ffordd mae'r Cyngor a'i swyddogion yn gweithredu.

PENDERFYNWYD –

1. bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r eitemau gaiff eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor;

2. nodi y byddai cyfarfodydd yn y flwyddyn ariannol nesaf yn cael eu cymeradwyo yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ym mis Mai.

21 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD – y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ddydd Llun 5 Mawrth 2018 am 5.00pm (lleoliad i'w gadarnhau).

Daeth y cyfarfod i ben am 5.55 pm